



Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Trwy ebost

9 Hydref 2019

Annwyl Syr/Fadam,

Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft i gefnogi darpariaeth bwyd a maeth o ansawdd mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod gan Lywodraeth Cymru.

Fel y gwyddoch, yn ystod 2014, cynhaliodd Sarah Rochira, fy rhagflaenydd, adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymruⁱ. Canfu'r adolygiad hwn fod profiadau preswylwyr yn amrywio'n fawr iawn o ran y diet a'u profiad o fwyta a bod angen gwella hyn.

Roedd Lle i'w Alw'n Gartref? Yn galw am ganllawiau arferion da cenedlaethol mewn perthynas ag amseroedd bwyta a'r profiad o fwyta i helpu i wella safonau maetholⁱⁱ, ac felly rwy'n croesawu'r canllawiau arfer gorau arfaethedig yr ymgynghorir arnynt.

Fodd bynnag, rwy'n bryderus gan y bydd y ddogfen derfynol ar y we, na fydd y canllawiau'n hygyrch i nifer o breswylwyr hŷn na'u teuluoedd. Dylid sicrhau bod copïau caled ar gael rhag bod pobl hŷn dan anfantais.

Mae barn preswylwyr a'u teuluoedd yn arbennig o bwysig i ddeall llwyddiant y canllawiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Dylid gofyn am farn preswylwyr hŷn a'u teuluoedd unwaith y caiff y canllawiau eu gweithredu, i asesu effaith y canllawiau.

Ansawdd ac Amrywiaeth

Mae'n bwysig bod y bwyd sy'n cael ei ddarparu i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal nid yn unig yn faethlon, ond o ansawdd da a'u bod yn mwynhau ei fwyta er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Ni ddylai'r ffaith bod rhywun yn byw mewn

03442 640 670

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cartref gofal fod yn rhwystr i gael mynediad i brydau maethlon, o ansawdd da – a bydd prydau o ansawdd yn golygu bod y person hŷn yn fwy tebygol o fwynhau'r pryd ac osgoi diffyg maeth.

Canfu Lle i'w Alw'n Gartref fod y rhan fwyaf o breswylwyr oedd yn rhan o'r arolwg yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad 'mae'r bwyd a'r ddiod sydd ar gael o ansawdd da'ⁱⁱⁱ. Rwy'n croesawu nod y canllawiau i wella ansawdd prydau a ddarperir mewn cartrefi gofal i bobl hŷn a chynnig cymorth i staff cartrefi gofal ddeall a diwallu gwahanol anghenion dietegol eu preswylwyr. Hefyd rwy'n croesawu'r ffaith bod y canllawiau'n rhoi sylw i'r angen i ystyried credoau crefyddol preswylwyr wrth baratoi bwyd.

Mae cynnwys preswylwyr cartrefi gofal yn y broses o gynllunio prydau'n fodd i bobl hŷn gael llais yn ogystal â chlust i'w dymuniadau. Rwy'n croesawu'r pwyslais a roddir yn y canllawiau ar gynnwys preswylwyr wrth gynllunio prydau ac mewn gweithgareddau bwyd.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd set o fwydlenni a ryseitiai sy'n bodloni'r safonau bwyd yn cael eu paratoi fel rhan o'r canllawiau terfynol.

Cynorthwyo

Rwy'n croesawu awgrymiadau'r canllawiau fod staff cartrefi gofal yn cynorthwyo preswylwyr amser prydau. Canfu Lle i'w Alw'n Gartref? nad yw rhai aelodau o staff yn ymwybodol fod angen cymorth ar breswylwyr i fwyta, neu nad oedd digon o staff i wneud hyn yn drylwyr^{iv}. Er enghraifft, efallai bod angen cymorth ychwanegol ar unigolion sy'n byw gyda dementia neu anabledd i estyn at fwyd a diod. Mae adran pedwar o'r canllawiau'n cynnig cyfeiriad cadarn i staff cartrefi gofal ar sut i helpu preswylwyr i fwynhau amseroedd bwyta, gan ystyried unrhyw ofynion ychwanegol. Rwy'n falch bod yr adran yn cynnwys cynghorion ac awgrymiadau i staff cartrefi gofal i'w gwneud yn haws sicrhau amseroedd bwyta rhagorol i bobl hŷn.

Credaf y byddai rhannu astudiaethau achos o arfer da o ran y profiad o fwyta rhwng cartrefi gofal hefyd yn gam cadarnhaol a fyddai'n cynnig cyfleoedd wedi'u profi ar gyfer gwella.

Fodd bynnag, bydd angen i gartrefi gofal sicrhau bod nifer digonol o staff er mwyn gallu cynorthwyo preswylwyr amser bwyta ac er mwyn defnyddio'r canllawiau arfer gorau fel y bwriadwyd.

Y Profiad o Fwyta

Canfu Lle i'w Alw'n Gartref? enghreifftiau pan oedd amseroedd bwyta'n cael eu trin fel 'gweithred glinigol', sy'n cadarnhau eu bod yn dasg angenrheidiol yn hytrach na

bod yn gyfle i ymgysylltu â phreswylwyr a mwynhau profiad cymdeithasol o fwyta gyda'i gilydd^v. Y teimlad oedd bod hyn yn cadarnhau ymdeimlad o sefydliad o fewn cartrefi gofal. Ers cyhoeddi Lle i'w Alw'n Gartref?, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ar greu profiad bwyta cadarnhaol i breswylwyr cartrefi gofal^{vi}. Rwy'n croesawu hon, ynghyd â'r canllawiau arfer gofal, sy'n mynd i'r afael â'r profiad bwyta. Mae'n bwysig bod amseroedd bwyta'n cael eu trin fel achlysur cymdeithasol ac yn gyfle i wella ansawdd bywydau preswylwyr.

Fodd bynnag, nid yw'r profiad bwyta'r un fath i bob person hŷn gan fod angen dull neu gymorth penodol ar rai pobl. Er enghraifft, efallai byddai unigolion â dementia'n gwerthfawrogi llestri lliw neu fwyd bys a bawd i wella eu profiad o fwyta. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y canllawiau'n cydnabod y dylai'r ddarpariaeth bwyd a diod ddiwallu anghenion unigol preswylwyr.

Roedd y ffaith bod y bwyd oedd ar gael drwy gydol y dydd yn amrywio hefyd yn bryder a rannwyd yn yr Adolygiad o Gartrefi Gofal^{vii}. Rwy'n croesawu bod y canllawiau'n argymhell hyblygrwydd i gynnwys nifer o wahanol batrymau prydau a snaciau fel y gall preswylwyr gael mwy o reolaeth dros ran mor bwysig o'u bywydau.

Iechyd y geg

Rwy'n croesawu bod y canllawiau'n galw am gefnogi cynlluniau gofal a maeth gan asesiad risg iechyd y geg oherwydd gall iechyd y geg gwael gael effaith ddifrifol ar brofiad unigolion o fwyta a mwynhau bwyd.

Monitro

Mae'n bwysig monitro effaith y canllawiau, a sut y cânt eu defnyddio o fewn cartrefi gofal i sicrhau y cyflawnir y nod o wella safonau maethol a dietegol, a phrofiad o amseroedd bwyta. Felly rwy'n croesawu'r defnydd o'r canllawiau fel meincnod gan gartrefi gofal i ddangos i arolygwyr ac Awdurdodau Lleol sut maent yn cyflawni cyfrifoldebau'n unol â chanllawiau statudol.

Mae'r Adolygiad o Ansawdd Gofal, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu adborth i ddarparwyr gwasanaeth ar farn preswylwyr am ansawdd gofal a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth a sut y gellir ei wella, a dylai hyn gynnwys adborth am ansawdd profiadau o amseroedd bwyta. Mae gwerthuso gyda rheolwyr cartrefi gofal a phreswylwyr yn allweddol i ddeall sut y bydd damcaniaethol cadarnhaol y canllawiau'n gweithio'n ymarferol.

Casgliad

Ni ddylai unrhyw berson hŷn yng Nghymru, yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal, gael eu heffeithio gan ddiffyg maeth y gellir ei osgoi, ac mae hawl gan bob person hŷn yng Nghymru i gael bwyd maethlon o ansawdd da, mewn amgylchedd bwyta pleserus – waeth ble maent yn byw. Credaf y dylai'r canllawiau arfer gorau helpu i godi safonau maethol a dietegol mewn cartrefi gofal ac rwy'n croesawu'r bwriad i'w defnyddio drwy Gymru.

Yn gywir,



Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

-
- ⁱ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? Ar gael o:
http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Lle_i_w_Alw_n_Gartref_-_Adolygiad_o_ansawdd_bywyd_a_gofal_pobl_h%c5%b7n_sy_n_byw_mewn_cartrefi_gofal_preswyl_yng_Nghymru1_1.sflb.ashx [Cyrchwyd: 30 Gorffennaf 2019]
- ⁱⁱ (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? (t.103)
- ⁱⁱⁱ (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? (t.62)
- ^{iv} (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? (t.9)
- ^v (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? (t.41)
- ^{vi} Llywodraeth Cymru. (2017) Creu profiad bwyta cadarnhaol i breswylwyr cartrefi gofal. Ar gael o:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/creu-profiad-bwyta-cadarnhaol-i-breswylwyr-cartrefi-gofal.pdf> [Cyrchwyd 30 Gorffennaf 2019].
- ^{vii} (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? (t.42)